CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD AR 18 AWST 2008 YN NHŶ CARADOG, CAERDYDD

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr P J Wood (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
Y Parch H M Davies	Mr. D Carr
	Mrs. Liza Brough
	Mrs. Abbie Prescott-Bird

1. DATGANIAD BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

2. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD AR 12 MEHEFIN 2008

2.1 Cytunwyd ar y rhain yn amodol ar y newidiadau y gofynnwyd amdanynt.

2.2 **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn egluro'r safon Saesneg Plaen ar gyfer ysgrifennu adroddiadau ac yn adrodd yn ôl i'r Comisiwn yng Nghyfarfod mis Hydref. **Cytunwyd** y byddai trefniadau yn cael eu gwneud fel y bo aelodau staff yr Ysgrifenyddiaeth yn mynychu cwrs priodol ar gyfer ysgrifennu cofnodion er mwyn iddynt ddiweddaru eu sgiliau a sicrhau y caiff yr arfer gorau ei ddefnyddio.

3. MATERION YN CODI

Arolwg Cymunedol Môn

3.1 Dywedodd yr Ysgrifennydd bod ymateb wedi'i dderbyn oddi wrth Ganolfan Bedwyr a oedd yn cadarnhau dilysrwydd cyfarwyddiadau'r cyn Ddirprwy Gadeirydd i gyfieithwyr y Comisiwn ynghylch y gwaith a wnaed ar adroddiad cynigion Terfynol Môn ac o ran unrhyw waith cyfieithu a wnaed i'r Comisiwn yn y dyfodol. **Cytunwyd** y byddai llythyr yn cael ei anfon at Ganolfan Bedwyr i ddiolch iddynt am eu cymorth ynglŷn â'r mater hwn.

Trosglwyddo system TG y Comisiwn

3.2 Dywedodd yr Ysgrifennydd y byddai trosglwyddo system TG y Comisiwn yn digwydd ar 4 Medi. Nododd y Comisiwn bod rhai materion ynglŷn â meddalwedd yn cael eu trafod o hyd.

Etholiadau i Awdurdodau Lleol Cymru

3.3 Dywedodd yr Ysgrifennydd bod y mater o gyfnodau Etholiadau'n effeithio ar yr amserlen arolwg wedi'i gynnwys ar agenda cyfarfod yr Aelodau â'r Gweinidog fel y cytunwyd arno yn y cyfarfod diwethaf.

Cynllun Gweithredol

3.4 Nododd y Comisiwn y Cynllun Gweithredol wedi'i ddiweddaru fel y dosbarthwyd iddynt eisoes.

Arolygon Cymunedol

3.5 Dywedwyd bod adroddiad cynigion drafft arolwg Cymuned Caerffili wedi'i anfon i'r ymgynghorydd cyfreithiol am ei sylwadau, ac fe'u hymgorfforwyd hwy yn yr adroddiad. Derbyniwyd yr ystadegau etholiadol y bu aros amdanynt oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a gwnaed newidiadau ôl-ddilynol i drefniadau etholiadol rhai o'r cymunedau. Cyflwynwyd copi o'r newidiadau hyn i'w cymeradwyo gan yr Aelodau. **Cytunwyd** y byddai'r adroddiad cynigion drafft yn cael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo modd.

3.6 Dywedwyd bod adroddiad cynigion drafft arolwg Cymuned Abertawe wedi'i anfon i'r ymgynghorydd cyfreithiol am ei sylwadau, a ymgorfforwyd yn yr adroddiad. Derbyniwyd yr ystadegau etholiadau oddi wrth Gyngor Dinas a Sir Abertawe y bu aros amdanynt a gwnaed newidiadau ôl-ddilynol i drefniadau etholiadol rhai o'r cymunedau. Cyflwynwyd copi o'r newidiadau hyn i'w cymeradwyo gan yr Aelodau. **Cytunwyd** y byddai'r adroddiad cynigion drafft yn cael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo modd.

3.7 Nodwyd y byddai'n annhebygol i adroddiad y Comisiwn ar yr Arolwg Cymunedol a gynhaliwyd gan Gyngor Dinas a Sir Caerdydd gael ei orffen mewn pryd ar gyfer cyfarfod mis Medi y Comisiwn gan mai 1 Medi 2008 oedd y dyddiad cau roedd y Cyngor wedi'i bennu ar gyfer derbyn cynrychiolaethau. Disgwylid y byddai'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno yng Nghyfarfod mis Hydref.

3.8 **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn ymgorffori'r angen i archwilio trefniadau etholiadol cymuned yn y papur briffio i'r Gweinidog.

4. AROLWG CYMUNEDOL PELLACH WRECSAM

4.1 Ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r Adroddiad Cynigion Drafft. Nodwyd bod mwyafrif y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn gwrthwynebu uno cymunedau Abenbury ac Is-y-coed. Roedd y Comisiwn wedi ystyried dichonolrwydd Cyngor Cymuned Is-y-coed o ystyried nifer bychan yr etholwyr a chynigiodd uno'r Gymuned hon a Chymuned Abenbury yn wreiddiol. Roedd hyn i "warchod ar gyfer y dyfodol" ddichonolrwydd cymunedau bach fel Is-y-coed. Fodd bynnag, nodwyd bod y cynrychiolaethau a dderbyniwyd, o'r farn bod y Cyngor Cymuned yn gweithredu'n dda a'i fod yn cael cefnogaeth gref oddi wrth ei breswylwyr. **Cytunwyd** na fyddai Cymunedau Abenbury ac Is-y-coed yn cael eu huno.

4.2 Nododd y Comisiwn y gwrthwynebiad a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Cymuned Parc Caia i drosglwyddo Llwyn Onn i Gymuned Abenbury. Tynnodd y Cyngor sylw at y ffaith y byddai ailalinio'r ffin rhwng eu cymuned ac Abenbury i ddilyn Ffordd Abenbury yn golygu trosglwyddo Canolfan Gymuned Pentre Gwyn a'r maes chwarae allan o'u hardal cymuned. Gwnaethant dynnu sylw at y ffaith eu bod yn talu swm yn flynyddol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fel cyfraniad at gynnal a

chadw'r Ganolfan Gymuned ac i ddiogelu ei dyfodol. Nododd y Comisiwn, fodd bynnag, bod y Ganolfan Gymuned a'r meysydd chwarae wedi'i breinio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a gallai preswylwyr o'r naill Gymuned neu'r llall eu defnyddio. **Cytunwyd** y byddai ystâd Llwyn Onn yn cael ei symud o Barc Caia i Abenbury â'r ffin yn dilyn y Ffordd Abenbury.

4.3 **Cytunwyd** y byddai Adroddiad Terfynol yn cael ei baratoi a'i anfon i'r ymgynghorydd cyfreithiol ac at Aelodau ar yr un pryd.

5. AROLWG CYMUNEDOL BLAENAU GWENT – CYNRYCHIOLAETHAU CYCHWYNNOL

Abertyleri – Nant-y-glo a Blaenau

5.1 Adroddwyd bod Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd wedi awgrymu newid i'r ffin rhwng eu cymuned a chymuned Nant-y-glo a Blaenau i gynnwys holl anheddiad Bournville yn eu hardal. Nid awgrymodd y Cyngor unrhyw ffin benodol ac felly roedd yr Ysgrifenyddiaeth wedi cynnig ailalinio'r ffin trwy ddefnyddio afon Ebbw Fach. Roedd hyn yn cynnwys yr holl strydoedd a grybwyllwyd gan y Cyngor yng Nghymuned Abertyleri a Llanhiledd. Roedd cyngor Nant-y-glo a Blaenau wedi gwneud gwrthawgrym a oedd yn golygu cynnwys holl anheddiad Bournville yn eu hardal cymuned hwythau. Unwaith eto, ni nodwyd ffin ac felly roedd yr Ysgrifenyddiaeth wedi awgrymu ailaliniad. Roedd y Comisiwn o'r farn fod y ffin a awgrymwyd gan Abertyleri a Llanhiledd yn ymddangos yn well. Roedd yn effeithio ar lai o eiddo ac roedd am y rhan fwyaf yn dilyn cwrs afon Ebbw Fach a ddiffiniwyd yn eglur. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cyflwyno awgrym Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd fel cynnig drafft yn amodol ar ymweliad safle gan yr Ysgrifenyddiaeth er mwyn cadarnhau bod y ffin yn addas.

Cendl

5.2 Dywedwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi gofyn i'r Comisiwn ystyried anghysondeb yn y ffin rhwng Cymunedau Cendl a Brynmawr yn ardal Ffordd Twyncynghordy. Roedd hyn yn cynnwys un eiddo preswyl ac ymddengys y gellid ei ddatrys yn hawdd drwy ailalinio'r ffin o amgylch terfyn yr eiddo hwnnw. **Cytunwyd** ystyried yr ailaliniad hwn yn ystod ymweliad safle yr Ysgrifenyddiaeth a'i gynnig os gwelir ei fod yn addas.

5.3 Nododd y Comisiwn bod hanes hir gan Gymuned Cendl, a oedd heb wardiau, o gael ei rhannu'n dair adran etholiadol llywodraeth leol sef Badminton, Cendl a Rasa. Gan nad oes gan Gymuned Cendl gyngor cymuned, ni fyddai'n bosibl fel rhan o unrhyw arolwg o drefniadau etholiadol cymuned, i greu wardiau cymunedol Badminton, Cendl a Rasa i gyd-ffinio ag adrannau etholiadol llywodraeth leol. Byddai gweithredu'r rheolau sy'n ymwneud ag arolygon etholiadol prif ardaloedd yn llym, yn y dyfodol yn rhoi un dewis yn unig i'r Comisiwn ar gyfer yr ardal sef creu adran etholiadol amlaelod fawr yn cynnwys holl Gymuned Cendl. Er mwyn bod mor hyblyg â phosibl yn ystod yr arolwg nesaf o drefniadau etholiadol ar gyfer Blaenau Gwent, dewis arall fyddai creu tair cymuned newydd o Gymuned bresennol Cendl, sef Badminton, Cendl a Rasa. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cynnig y dylid diddymu Cymuned Cendl a chreu tair cymuned newydd, sef Badminton, Cendl a Rasa a'u bod yn dilyn ffiniau'r adrannau etholiadol presennol,

yn amodol ar ymweliad safle gan yr Ysgrifenyddiaeth i weld a fyddent yn gwneud ffiniau cymunedol addas.

Brynmawr

5.4 Adroddwyd bod Cyngor Tref Brynmawr wedi awgrymu newid i'r ffin rhyngddynt a Chymuned Nant-y-glo a Blaenau i ymgorffori nifer mawr o eiddo preswyl yn eu cymuned. Nododd y Comisiwn mai'r unig fynediad i'r eiddo hyn oedd drwy Nant-y-glo a Blaenau ac felly nid oedd y ffin awgrymedig yn ddelfrydol. Roedd Nant-y-glo a Blaenau wedi gwneud gwrthawgrym a fyddai'n symud rhan lai o Nant-y-glo a Blaenau i Frynmawr a chynnwys Ystad Ddiwydiannol Blaenant, Ysgol Gynradd Brynmawr a Chanolfan Iechyd Brynmawr yn eu cymuned. Nodwyd y byddai'r ailaliniad awgrymedig hwn yn symud Ysgol Gynradd Brynmawr a Chanolfan Iechyd Brynmawr o ardal Brynmawr. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cynnig fersiwn ddiwygiedig o'r cynnig a wnaed gan Nant-y-glo a Blaenau a fyddai'n ailalinio'r ffin i'r de o Ysgol Gynradd Brynmawr ac felly'n cadw Ysgol Gynradd Brynmawr a Chanolfan Iechyd Brynmawr yn ardal Brynmawr. **Cytunwyd** y byddai'r ailaliniad hwn yn cael ei ystyried yn ystod ymweliad safle yr Ysgrifenyddiaeth ac os byddai'r ffin yn un addas.

Cwm a Glyn Ebwy

5.5 Adroddwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi cynnig ystyried y ffin rhwng Cymunedau Glyn Ebwy a Chwm. Mae'n amlwg bod y ffin anomalaidd gan ei bod yn rhannu sawl eiddo ac mae'r Cyngor wedi awgrymu y dylid ei hailalinio i ddilyn ffordd gyfagos. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd yr ailaliniad awgrymedig hwn yn cynnwys sawl annedd i'r gorllewin lle gellid cael mynediad iddynt drwy Gymuned Cwm yn unig. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn archwilio a fyddai modd estyn y ffin arfaethedig i gynnwys yr eiddo hyn a oedd o fewn Cwm.

5.6 Nodwyd bod Cymuned Glyn Ebwy sydd heb wardiau, a hanes hir o gael ei rhannu yn ddwy adran etholiadol llywodraeth leol sef Gogledd Glyn Ebwy a De Glyn Ebwy. Gan nad oes gan Gymuned Glyn Ebwy gyngor cymuned ni fyddai modd creu wardiau cymunedol newydd i gyd-ffinio â'r adrannau etholiadol llywodraeth leol. Dewis arall fyddai creu dwy gymuned newydd o gymuned bresennol Glyn Ebwy, sef Cymuned Gogledd Glyn Ebwy a Chymuned De Glyn Ebwy. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cynnig diddymu Cymuned Glyn Ebwy. Byddai dwy gymuned newydd, sef Gogledd Glyn Ebwy a De Glyn Ebwy yn cael eu creu yn dilyn ffiniau presennol yr adrannau etholiadol, a hyn yn amodol ar ymweliad safle gan yr Ysgrifenyddiaeth i weld a fyddent yn gwneud ffiniau cymunedol addas.

Tredegar

5.7 Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi cynnig rhai newidiadau i ffiniau wardiau cymunedau Canol, Gorllewin a Georgetown yng Nghymuned Tredegar. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn awgrymu yn eu Cynigion Drafft y byddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn ystyried adolygu wardiau cymunedol Cyngor Cymuned Tredegar.

6. AROLWG CYMUNEDOL BRO MORGANNWG – CYNRYCHIOLAETHAU CYCHWYNNOL

Y Barri

6.1 Nododd y Comisiwn yr awgrym oddi wrth Gadeirydd Ceidwadwyr Bro Morgannwg y dylai ardal Pencoedtre fod yn Ward ar wahân yng Nghymuned Y Barri. Sylwodd yr Ysgrifenyddiaeth hefyd ar anomaledd yn y Ffin Ward Gymunedol ger Glan Dŵr Y Barri. Cytunwyd amlygu'r newid hwn ac unrhyw newidiadau eraill a awgrymwyd i'r trefniadau etholiadol cymunedol y mae'n bosibl nas ystyriwyd yn newidiadau ôl-ddilynol o dan yr arolygiad, yn yr adroddiad i'w ystyried gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg.

Gwenfô

6.2 Nododd y Comisiwn yr awgrym oddi wrth Gadeirydd Ceidwadwyr Bro Morgannwg ynghylch sefydlu ward ychwanegol yng Nghymuned Gwenfô. Cytunwyd amlygu'r newid hwn ac unrhyw newidiadau eraill a awgrymwyd i'r trefniadau etholiadol cymunedol y mae'n bosibl nas ystyriwyd yn newidiadau ôl-ddilynol o dan yr arolygiad, yn yr adroddiad i'w ystyried gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg.

Ewenni

6.3 Nododd y Comisiwn yr awgrym oddi wrth Gyngor Cymuned Ewenni a phreswylydd lleol y dylif ailalinio ffin Ewenni i ddilyn Rheilffordd y Fro. Nodwyd, fodd bynnag, bod yr ailaliniad hwn yn cynnwys newid i'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg ac felly roedd y tu allan i gwmpas yr arolwg presennol.

Llandochau

6.4 Nododd y Comisiwn yr awgrym oddi wrth Gyngor Cymuned Llandochau symud i'r eiddo a adweinir fel Croft Mawr i ardal Cyngor Cymuned Llanfihangel. Nodwyd mai'r mynediad i'r eiddo oedd o Lanfihangel. Cytunwyd ailalinio'r ffin i symud yr eiddo o Landochau i Lanfihangel.

Llan-faes

6.5 Nododd y Comisiwn yr awgrym oddi wrth Gyngor Cymuned Llan-faes i ailalinio'r ffin rhwng eu cymuned a Llanilltud Fawr i ddilyn y ffordd B4265 yn Nhrebefered. Sylwyd, fodd bynnag, bod ffin awgrymedig y Cyngor yn hepgor dau eiddo i'r de-orllewin o Lan-faes. Cytunwyd felly i nodi yn yr adroddiad cynigion drafft, estyn y ffin yn fwy i'r gorllewin ar hyd y ffordd B4265 er mwyn cynnwys yr eiddo hyn yng Nghymuned Llan-faes.

Llanilltud Fawr

6.6 Nododd y Comisiwn yr awgrym oddi wrth Gyngor Tref Llanilltud Fawr i gynyddu'r gynrychiolaeth yn Ward Trebefered. Ystyriodd y Comisiwn y gallai'r newid hwn gael ei gynnig fel newid ôl-ddilynol oherwydd y newid arfaethedig i'r ffin rhwng Llanilltud Fawr a Llan-faes. Cytunwyd i ofyn am y ffigurau etholiadol oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, am yr ardal dan sylw.

Penarth

6.7 Nododd y Comisiwn yr awgrym gan Gyngor Tref Penarth i ailalinio'r ffin rhwng eu Cymuned a Chymuned Sili er mwyn symud eiddo yn Whitcliffe Drive o Sili i Benarth. Cytunwyd mabwysiadu'r awgrym hwn ar gyfer yr adroddiad drafft.

6.8 Nodwyd hefyd bod anomaledd pellach yn y ffin rhwng Cymunedau Sili a Phenarth yn ardal Merlin Close a Brockhill Way. Cytunwyd mabwysiadu'r awgrym hwn ar gyfer yr adroddiad drafft.

6.9 Nodwyd bod Cyngor Tref Penarth wedi awgrymu newid i'r ffin gymunedol yn Llynnoedd Cosmeston. Fodd bynnag, o ystyried map o'r ardal gwelodd yr Ysgrifenyddiaeth fod anghysondeb rhwng disgrifiad Cyngor Tref Penarth a'r map ei hun. Anfonodd yr Ysgrifenyddiaeth y map at Gyngor Tref Penarth a cheisio esboniad pellach. Ar ôl derbyn y map, cadarnhaodd Cyngor Tref Penarth fod eu map yn hen a bod map yr Ysgrifenyddiaeth yn gywir ac nid oedd angen newid.

Pendeulwyn

6.10 Nododd y Comisiwn yr awgrym oddi wrth Gyngor Cymuned Pendeulwyn i symud tri eiddo o Landdunwyd i Bendeulwyn. Nid oedd yn glir o gynrychiolaeth y Cyngor lle roedd lleoliad yr eiddo ac roedd yr Ysgrifenyddiaeth yn aros am gadarnhad oddi wrth y Cyngor ynghylch hyn.

Sain Tathan

6.11 Nododd y Comisiwn awgrym gan Gyngor Cymuned Sain Tathan i ostwng y gynrychiolaeth yn Ward Sain Tathan ac i gynyddu'r gynrychiolaeth yn Ward Trefflemin. Cytunwyd amlygu'r newid hwn ac unrhyw newidiadau eraill a awgrymwyd i'r trefniadau etholiadol cymunedol y mae'n bosibl nas ystyriwyd yn newidiadau ôl-ddilynol o dan yr arolygiad, yn yr adroddiad i'w ystyried gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg.

Saint-y-brid

6.12 Nododd y Comisiwn nifer mawr y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn cefnogi'r awgrym y dylai Ward Aberogwr yng Nghymuned Saint-y-brid ffurfio Cymuned ar ei ben ei hun, a allai gynnwys ardal Southerndown o Ward Saint-y-brid. Roedd y Comisiwn o'r farn y byddai'r cynnig hwn yn creu dwy Gymuned fechan iawn a fyddai ganddynt lefel o gynrychiolaeth yn llai na'r isafswm y mae ei angen i weithredu fel Cymunedau ar wahân. Nid oedd y Comisiwn wedi'i ddarbwyllo gan y dadleuon yn y cynrychiolaethau y byddai hyn yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus i ffurfio cymuned newydd o Ward Aberogwr. **Cytunwyd** rhoi ystyriaeth bellach i'r cynnig hwn.

Y Wig

6.13 Nododd y Comisiwn yr awgrym gan Gyngor Cymuned Y Wig i ailalinio'r ffin rhwng eu Cymuned a Chymuned Saint-y-brid. Nid oedd yn glir o gynrychiolaeth y Cyngor lle dylai'r ffin gael ei hailalinio ac roedd yr Ysgrifenyddiaeth yn aros am gadarnhad oddi wrth y Cyngor ynghylch hyn.

7 AROLWG CYMUNEDOL PEN-Y-BONT AR OGWR – MERTHYR MAWR

7.1 Dywedwyd bod atebion wedi'u derbyn bellach oddi wrth Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, a Chynghorau Cymuned Merthyr Mawr a Threlales ynghylch y tri dewis a gyflwynwyd gan y Comisiwn i newid y ffin. Barn Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr mai'r dewis gorau oedd cynnwys ystad Island Farm yn eu Cymuned. Yn ôl Cynghorau Cymuned Merthyr Mawr a Threlales y cynnig a fyddai orau i'r preswylwyr fyddai ailalinio'r ffin ar hyd y ffordd i'r gogledd o ystad Island Farm. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ei adroddiad cynigion drafft yn mabwysiadu'r cynnig i ailalinio'r ffin rhwng Merthyr Mawr a thref Pen-y-bont ar Ogwr ar hyd y ffordd i'r gogledd o ystad Island Farm.

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2008-09

8.1 **Cytunwyd** y byddai'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyfieithu a'i gyhoeddi cyn gynted ag y bo modd.

9. POLISI CAFFAEL CYNALIADWY

9.1 Dywedodd yr Ysgrifennydd ei bod yn ofyniad yn ôl llythyr ynglŷn â Chylch Gwaith y Comisiwn a dderbyniwyd oddi wrth yr Isadran Noddi fod y Comisiwn yn llunio polisi Caffael Cynaliadwy. Gyda chymorth oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd, mae hwn bellach wedi'i baratoi. Mae'r Comisiwn yn gwneud cynnydd gyda Buddsoddwyr mewn Pobl sy'n wedi'u cysylltu â'r polisi hwn. Gobeithiwyd anfon cynllun gwaith at Lywodraeth Cynulliad Cymru cyn mis Ionawr 2009.

9.2 Nododd y Comisiwn y cynnydd a wnaed i fodloni'r rhwymedigaeth hon. Cytunwyd i gyflwyno adroddiad cynnydd i gyfarfod yn y dyfodol.

10. ADRODDIAD CYLLID – CHWARTER CYNTAF 2008-09

10.1 Adroddwyd bod tanwariant o ran cyllideb y Comisiwn ar gyfer chwarter cyntaf 2008-09 a'i bod yn debygol y byddai'r gyllideb wedi'i thanwario ar ddiwedd 2008-09. Rhoddwyd gwybod i'r isadran noddi am amcangyfrif o sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Nodwyd fodd bynnag y codir tâl ar y Comisiwn am y trosglwyddo TG i'w wneud yn fuan gan Merlin ac ni wyddys eto y pris terfynol am y gwaith hwn.

11. UNRHYW FATER ARALL

11.1 Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu lansio Adroddiad gan Sefydliad Joseph Rowntree lle cafwyd anerchiad gan y Gweinidog.

11.2 Dywedodd yr Ysgrifennydd fod Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi derbyn Adroddiad blynyddol Iaith Gymraeg y Comisiwn a chanmolwyd y Comisiwn am eu parhad i weithredu eu Cynllun Iaith Gymraeg.

11.3 Dywedodd yr Ysgrifennydd y byddai staff o Swyddfa Archwilio Cymru yn dod i gyfarfod mis Medi'r Comisiwn i drafod eu gwaith diweddar ar gyfer arolwg cyfnodol y Comisiwn. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn holi a fyddai'n bosibl cynnal arolwg o farn cwsmeriaid y Comisiwn yn rhan o hyn.

11.4 Dywedodd yr Ysgrifennydd y cytunwyd ar 5 Medi 2008 fel dyddiad cyfarfod Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, i'w gynnal yn swyddfeydd y Comisiwn. **Cytunwyd** y byddai'r Dirprwy Gadeirydd yn mynychu'r cyfarfod ynghyd â'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd.

11.5 Anfonwyd agenda ddrafft at Aelodau ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol rhwng yr Aelodau a'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol Cynulliad Cymru.

12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

12.1 Cytunwyd ar y dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol fel a ganlyn:

Dydd Mawrth 9 Medi 2008 am 10:45 a.m.
Dydd Iau 16 Hydref 2008 am 3:00 p.m.
Dydd Mercher 26 Tachwedd 2008 am 10:45 a.m.